

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
Ionawr 9fed, 2017**

Presennol: Eleri Jones (Cadeirydd), Emyr Jones, (Is Gadeirydd), John Morris, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Dymunodd y Cadeirydd flwyddyn newydd dda i bawb.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 15/11/16

5. Materion yn codi o gyfarfod Tachwedd:

- a. Eglwys Santes Gwawr – cytunwyd i siarad gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri am bryder y Cyngor am y dirywiad yng nghyflwr yr Eglwys.
- b. Anfonwyd lythyr at y Comisiwn Ffiniau yn gwrthwynebu cynnwys Penllyn gyda Gogledd Powys a Dinbych fel etholaeth seneddol.
- c. Derbyniwyd gwybodaeth am bris halen yn lleol. Debyniwyd adroddiad Emyr Jones a Geraint Roberts ar y biniau halen. Mae'r 10 yn llawn o halen ar hyn o bryd. Bydd adroddiad arall gan y Cyngorwyr yn y cyfarfod nesaf. Lleoliad y biniau presennol:
 - a. Allt Tŷ Cerrig/Penffridd
 - b. Gelligrŷn
 - c. Ffordd Brynbedwog
 - d. Maesafallen
 - e. Bryniau Golau
 - f. Y Geuddol
 - g. Rhiw Nant Sibil
 - h. Uwchben Tyddyn Llafar
 - i. Dau fin halen ym mhen draw Aberhirnant

- 6. Adroddiad y Cyngorydd Sir** Soniodd y Cyngorydd Alan Jones Evans am yr angen i barhau i gefnogi Cyngor Gwynedd i ddynodi'r ysgol gydol oes newydd yn ysgol gymunedol (heb hawliau enwadol o unrhyw fath). Diolchwyd iddo am ei adroddiad clir a chryno.

7. Materion ariannol:

- a. Monitrowyd y sefyllfa ariannol bresennol yn erbyn y Gyllideb a'i chael yn dderbyniol.
- b. Arwyddwyd ffurflen gais y Praesept.
- c. Talwyd costau (papur a stampiau) y Clerc a thalwyd cyfraniad blynyddol tuag at gynnal swyddfa'r Clerc.
- d. Rhoddwyd ystyriaeth i Lwfans Cyngorydd o dan Adran 142 o Fesur Llywodraeth Lleol (Cymru 2011). Oni bai am dderbyn costau teithio i gynrhychioli'r Cyngor

mewn cyfarfodydd eraill, gwrthododd pob un o'r Cynghorwyr dderbyn y Lwfansau sydd ar gael am fod yn Gynghorydd.

- e. Derbyniwyd llythyr gan BDO i ddweud fod yr anfoneb ar y ffordd.
- f. Cadarnhawyd y gwahoddiad a wnaethpwyd i John Roberts weithredu fel Archwilydd Mewnol am y flwyddyn ariannol 2016-17.
- g. Derbyniwyd gwybodaeth ar y terfyn gwariant ar gyfer 2017-18 o dan Adran 137.
- h. Cytunwyd ar y pris am dorri gwair y fynwent yn 2017 – dau doriad i'r fynwent gyfan ac un toriad ychwanegol i'r top. Cytunodd Alan Jones Evans i holi am fin gwastraff gwyrdd i'w gadw wrth giat y fynwent. Cytunodd y Cynghorwyr i roi ystyriaeth i glirio'r tyfiant sydd tu ôl i'r giat ar hyn o bryd.

8. Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:

- a. Cytunodd Alan Jones Evans i wneud ymholiadau am dorri'r eithin wrth ochr y ffordd yn ymyl Pengarth.
- b. Mae gwaredu slei bach yn dal i ddigwydd wrth finiau Llangywer. Hefyd, nid yw'r biniau ail gylchu'n cael eu gwagio'n ddigon aml. Cytunodd Alan Jones Evans i ddilyn y materion hyn.
- c. Rhybuddiwyd trigolion yr ardal i fod ar eu gwylidwriaeth gan y bu sawl achos o ladrata'n ddiweddar.

9. Partneriaeth Penllyn: Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr. Cytunwyd i anfon at Wasanaethau Gwynedd i fynegi pryder am gyflwr y toiledau yn Y Bala; nid ydynt yn adlewyrchu'n dda ar yr ardal.

10. Gohebiaeth:

Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd a roddwyd i fân newidiadau i Tŷ Mawr, Rhosygwalia

Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am Etholiad Cyngor Sir a chost cynnal etholiad.

Derbyniwyd gwybodaeth am Ardal Penllyn gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Derbyniwyd rhybudd am Rali'r Cambrian a fydd yn ymweld a Rhosygwaliau a Llangywer ar 11/2/17

11. Cadarnhau Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf **27/2/17 am 7.30 yn y Neuadd Bentref.**